| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **17 Ionawr 2011** |
| **Teitl :** | **Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad** |
| **Awdur :** | **Swyddog Monitro** |
| **Gweithredu :** | **Ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno hyfforddiant** |

**<u>Cefndir</u>**

1. Mae hyfforddiant i aelodau Cyngor Gwynedd ac i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir ar y Cod Ymddygiad yn un o'r materion sydd wedi ei gynnwys yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau.

2. Yn dilyn trafodaeth flaenorol y Pwyllgor ynglŷn â hyn, rydym wedi bod yn trafod gyda'r Uned Hyfforddi'r, sy'n trefnu hyfforddiant i staff ac aelodau'r Cyngor. Mae sawl opsiwn wedi ei adnabod ar gyfer cyflwyno'r hyfforddiant:

**Cyflwyniad**

Byddai modd gwneud cyflwyniad llafar i aelodau'r cyngor fel rhan o'u rhaglen hyfforddiant.

O safbwynt cynghorau cymuned, cynhaliwyd chwe sesiwn ar draws y sir yn 2008, a mynychwyd hwy gan 126 o aelodau yn cynrychioli 36 o 64 cyngor tref/cymuned y sir. Teimlir felly y dylid edrych am ffordd well o gyrraedd mwy o gynghorau ac aelodau.

**'Modiwl hyfforddi'**

Byddai'r modiwl, ar wefan Cyngor Gwynedd, yn cyflwyno gwybodaeth am y cod ymddygiad ac yn asesu dealltwriaeth o'r pwnc drwy gyfrwng holiadur ar y diwedd. Gwneir hyn eisoes gyda staff ac aelodau'r Cyngor ac rydym yn ymchwilio i weld os fyddai'n bosib gwneud drwy'r wefan i bobl sydd ddim ar system y Cyngor.

**DVD**

Paratoi DVD i'w ddosbarthu i'r cynghorau. Byddai hwn yn cynnwys cyflwyniad byr a chryno ar brif bwyntiau'r cod ynghyd â sefyllfaoedd enghreifftiol a chwestiynau i'w trafod. Gellid ei gynnwys fel eitem a'i chwarae yn un o gyfarfodydd y cyngor. Gellid hefyd gofyn i aelod lleol Cyngor Gwynedd fynychu i gyflwyno'r eitem er mwyn pwysleisio ei bwysigrwydd. Byddai modd hefyd i aelodau sy'n methu bod yn bresennol ei fenthyg.

**Llyfryn**

Llyfryn bychan wedi ei ysgrifennu mewn iaith glir a syml yn egluro prif bwyntiau'r cod ymddygiad i'w ddosbarthu i aelodau a chlercod.

**Gwefan Cyngor Gwynedd**

Sefydlu tudalen ar y wefan lle gallai aelodau, clercod a'r cyhoedd gael mynediad i wybodaeth a dogfennau yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.

**Cyd-weithio**

Mae Cymdeithas Ysgrifenyddion a Sirol Cymru (ACSeS), sy'n cynnwys holl swyddogion monitro Cymru, ar hyn o bryd yn ystyried datblygu hyfforddiant y gellir ei ddefnyddio gan awdurdodau ar draws Cymru.  Rydym hefyd yn edrych i mewn i'r posibiliad o gyd-weithio gydag Un Llais Cymru, sy'n cynrychioli'r cynghorau cymuned a thref. Gobeithiaf y bydd gennyf wybodaeth bellach ar y posibiliadau hyn erbyn y cyfarfod.

**Argymhelliad**

3. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr opsiynau uchod.